Disgrifiad Swydd

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

HYFFORDDWR SWYDDI

Band: .....3.6 i 3.13

Cyflog: .....£29,511.67 i £33,899.63

Cytundeb: .....Parhaol

Oriau gwaith: .....Llawn amser, 37 awr yr wythnos

Lleoliad gweithio: .....Wrecsam neu Sir y Fflint

Yn atebol i:.....Arweinydd y Tîm Cysylltu â Gwaith

Cefndir

Mae Cysylltu â Gwaith yn rhaglen newydd gan lywodraeth y DU sydd â'r nod o helpu pobl i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, yn enwedig pobl sydd ag anableddau, cyflyrau iechyd ac anghenion cymhleth.
Mae'r rhaglen yn seiliedig ar fodel cyflogaeth â chymorth, gan ddefnyddio dull 'lleoli, hyfforddi a chynnal', y mae tystiolaeth ei fod y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl i gael gwaith. Bydd ein tîm yn gweithio gydag unigolion i'w cysylltu â swyddi a chyflogwyr sy'n cyd-fynd â'u dyheadau a'u hanghenion cefnogaeth.

Diben y Swydd

Byddwch yn ymuno â thîm o hyfforddwyr swyddi Cysylltu â Gwaith sy'n darparu cymorth unigol, wedi'i deilwra i helpu pobl ag anghenion cymhleth i'r byd cyflogaeth, yn unol ag egwyddorion Cyflogaeth â Chymorth.

Cyfrifoldebau

Cam cyn cyflogaeth:

- Ymgysylltu â llwyth achos o hyd at 25 o gyfranogwyr ar unrhyw adeg, a'i gefnogi, gan gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol ar draws yr ardal leol
- Gweithio'n helaeth gyda chyfranogwyr, gan ddefnyddio proses proffilio galwedigaethol i nodi sgiliau, galluoedd, nodau, rhwystrau ac anghenion, a darparu cymorth hyfforddi i helpu cleientiaid i gyflawni eu nodau cyflogaeth.
- Nodi opsiynau ar gyfer cymorth i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gyflogaeth, megis trafnidiaeth, iechyd neu dai, gan gysylltu ag asiantaethau eraill yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo cyfranogwyr i greu CV cyfredol a pharatoi at gyfweliad.
- Gweithio gydag unigolion allweddol sy'n ymwneud â chylch cymorth y cyfranogwr, gan gynnwys aelodau teulu, gweithwyr iechyd meddwl ac ati, i ystyried pob agwedd ar ei bontio i gyflogaeth ac i sicrhau bod cymorth priodol ar waith.
- Dod o hyd i gyfleoedd swyddi drwy gynnal chwiliad swyddi cyflym, pwrpasol a chysylltu'n rheolaidd â chyflogwyr, negodi ar gyfleoedd sy'n bodloni cryfderau, anghenion, galluoedd a hoff ddewisiadau cyfranogwyr

Cam cyflogaeth:

- Gweithio gyda'r cyfranogwr a'r cyflogwr i sicrhau bod adnoddau a chymorth priodol ar waith yn y gweithle, gan helpu i nodi a dod o hyd i unrhyw adnoddau neu dechnolegau cynorthwyol sydd eu hangen
- Helpu cyflogwyr i feddwl yn hyblyg am ddyluniad swyddi ac ynghylch unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y swydd neu'r gweithle yn cyd-fynd â sgiliau ac anghenion y cyfranogwr.
- Cefnogi'r cyfranogwr drwy'r broses gynefino, gan sicrhau ei fod yn deall ei swydd, y disgwyliadau, a diwylliant y cwmni, a sicrhau ei fod yn gallu cyrchu hyfforddiant priodol
- Lle bo'n briodol, darparu arweiniad a chymorth ymarferol i helpu cyfranogwyr i ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd mewn hyfforddiant a rheoli tasgau'n effeithiol, gan ddefnyddio cyfarwyddiadau tasg systemig yn ôl yr angen
- Dal ati i gysylltu'n rheolaidd â chyfranogwyr ar ôl iddynt ddod o hyd i gyflogaeth, gan gynnig cymorth gyda materion wrth iddynt ddod i law, a chefnogi eu cynnydd

Cyfrifoldebau

- Sicrhau bod yr holl weithgarwch gwasanaeth a chyfranogwyr yn cael ei gofnodi'n gywir ac yn brydlon drwy ddefnyddio system CRM ddigidol RCS

Datblygiad Proffesiynol

- Ymwneud â'r holl weithgareddau hyfforddiant a datblygu yn ôl yr angen i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â darparwyr a rhwydweithiau eraill i rannu arferion gorau a chymryd rhan mewn ymarfer myfyriol i sicrhau hyfedredd a datblygiad proffesiynol parhaus.

Datblygu a gweinyddu gwasanaeth

- Cyfrannu'n rhagweithiol at wella gwasanaeth yn barhaus drwy dynnu sylw at unrhyw faterion, heriau neu risgiau i gyflawniad mewn ffordd briodol, a gweithio'n rhan o dîm i ddatblygu datrysiadau priodol, a'u rhoi ar waith.
- Cyfrannu'n weithredol at hyrwyddo'r gwasanaeth e.e. rhannu astudiaethau achos, cyflwyno mewn digwyddiadau ac ati
- Gweithio o fewn ffiniau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a chanllawiau neu ddeddfwriaeth berthnasol arall wrth ymdrin â gwybodaeth am gleientiaid a chyflogwyr
- Gweithio'n rhagweithiol yn unol â gwerthoedd cwmni RCS - Ymateb, Cysylltu a Chefnogi
- Gweithio yn ôl ein system rheoli ansawdd er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson ac o safon i gleientiaid
- Unrhyw ddyletswyddau gofynnol eraill sy'n gymesur â'r swydd

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

Manyleb person

Hanfodol

- Safon uchel o gyflawniad addysgol
- O leiaf 2 flynedd o brofiad o ddarparu cymorth cyflogaeth, yn ddelfrydol
- mewn lleoliad IPS neu gyflogaeth â chymorth;
- Profiad o weithio gyda phobl sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i gyflogaeth
- Profiad o reoli llwyth achos o gleientiaid/cwsmeriaid.
- Profiad o ymgysylltu â chyflogwyr i helpu cwsmeriaid i gael mynediad at
- gyflogaeth a'i chynnal
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth, polisïau a materion anghenion arbennig
- ac anableddau mewn perthynas â chyflogaeth
- Dealltwriaeth dda o egwyddorion ac arferion cyflogaeth â chymorth a/neu
- IPS
- Lefel dda o lythrennedd digidol
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol ar bob lefel, yn enwedig
- hyfforddi, negodi, gwrando gweithredol a dylanwadu
- Agwedd greadigol, hyblyg, arloesol a chydweithredol
- Yn gallu gweithio'n annibynnol a defnyddio blaengarwch
- Sgiliau trefnu amser da, ac yn gweithio'n dda o dan bwysau
- Cynnal systemau gweinyddu effeithiol a threfnus
- Empathig, ddim yn beirniadu ac yn ddibynadwy
- Brwdfrydedd ac awch i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl
- Meddylfryd cadarnhaol a'r gallu i gymell pobl eraill
- Gwydn a dygn pan ddaw rhwystrau a heriau i law
- Cydwybodol a dibynadwy
- Ymrwymiad i ddysgu a pharodrwydd i ymwneud â chyfleoedd ar gyfer
- datblygiad proffesiynol parhaus
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb, ac ymrwymiad iddynt, a herio
- arferion gwahaniaethol
- Hyblygrwydd i deithio o fewn y rhanbarth

Dymunol

- Cymhwyster hyfforddi
- Tystysgrif Lefel 3 ar gyfer Ymarferwyr Cyflogaeth â Chymorth
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Gwybodaeth ymarferol gyfredol o fudd-daliadau lles a/neu gyfraith cyflogaeth
- Y Gymraeg

Gwiriadau cyn cyflogaeth

- Hawl i fyw a gweithio yn y DU
- datgeliad manylach DBS
- Dau eirdaYnEr

Mae RCS wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir. Dywedwch wrthym os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar unrhyw gam o'r broses recriwtio fel y gallwn eich cefnogi i berfformio ar eich gorau.